

## **CYNGOR SIR**

Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun LL15 1YN, Dydd Mawrth, 10 Medi 2019 am 10.00 am.

### **YN BRESENNOL**

Y Cynghorwyr Mabon ap Gwynfor, Brian Blakeley, Joan Butterfield, Ellie Chard, Ann Davies, Gareth Davies, Meirick Davies (Cadeirydd), Hugh Evans, Bobby Feeley, Rachel Flynn, Tony Flynn, Huw Hilditch-Roberts, Hugh Irving, Alan James (Is-Gadeirydd), Brian Jones, Tina Jones, Gwyneth Kensler, Geraint Lloyd-Williams, Richard Mainon, Christine Marston, Melvyn Mile, Bob Murray, Merfyn Parry, Paul Penlington, Arwel Roberts, Anton Sampson, Peter Scott, Glenn Swinger, Rhys Thomas, Julian Thompson-Hill, Graham Timms, Joe Welch, David Williams, Eryl Williams, Huw Williams a/ac Mark Young

### **HEFYD YN BRESENNOL**

Prif Weithredwr (JG), Pennaeth y Gyfraith, AD a Gwasanaethau Democrataidd (GW), Pennaeth Gwasanaethau Prifffyrdd ac Amgylcheddol (TW), Rheolwr Risg Llifogydd (WH) a Gweinyddwr Pwyllgorau (SLW)

#### **1 YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Jeanette Chamberlain-Jones, Peter Arnold Evans, Martyn Holland, Huw Jones, Pat Jones, Barry Mellor, Pete Prendergast, Andrew Thomas, Tony Thomas, Cheryl Williams a/ac Emrys Wynne

#### **2 DATGAN CYSYLLTIAD**

Datganodd y Cynghorydd Tony Flynn gysylltiad personol yn Eitem 6, Cynllun Amddiffyn Arfordir Dwyrain y Rhyl, gan ei fod yn berchen ar 2 eiddo masnachol a 3 eiddo preswyl yng nghanol Y Rhyl.

#### **3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Dim materion bryd.

Ar y pwynt hwn, dywedwyd wrth Aelodau y byddai cwestiwn yn cael ei gyflwyno fel a ganlyn:-

Gofynnodd y Cynghorydd Mabon ap Gwynfor y cwestiwn canlynol:

“Mae tri Chyngor Sir yng Nghymru yn bwriadu dad-fuddsoddi (gwaredu) eu cynlluniau pensiwn o gwmnïau yn gysylltiedig â thanwyddau ffosil. Fel rhan o gynlluniau'r Cyngor a Chymru i fynd i'r afael â newid hinsawdd, pa gynlluniau sydd gan y Cabinet i Gynllun Pensiynau Clwyd ddad-fuddsoddi o gwmnïau yn gysylltiedig â thanwyddau ffosil”?

Dyma ymateb y Cyngorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol:

“Byddai Cyngor Sir Ddinbych, fel corff ar ei ben ei hun, yn rhy fach i gynnal ei gynllun pensiwn ei hun. Felly, rydym yn aelod o Gronfa Bensiynau Clwyd, sydd hefyd yn cynnwys Wrecsam, Sir y Fflint (sy'n gweinyddu'r cynllun) a nifer o Gyngorau Tref a Chymuned llai ynghyd â rhai cyrff gweinyddol eraill. Felly, rydym yn rhan o'r Pwyllgor, fodd bynnag, fe allwn ddylanwadu ar gyfeiriad y Pwyllgor.

Mae gennym aelod ar y Pwyllgor sydd yn goruchwyllo'r gronfa pensiynau, y Cyngorydd Huw Jones, sydd yn wael ar hyn o bryd, ond rwy'n ymwybodol ei fod yn chwarae rhan weithredol yn y Pwyllgor.

Mae gan Gronfa Bensiynau Clwyd strategaeth fuddsoddi sydd yn nodi, yn amodol ar y ddyletswydd sydd ganddi i sicrhau bod rhwymedigaethau pensiynwyr y presennol a'r dyfodol yn cael eu cwrdd, y bydd yn gwneud buddsoddiadau dewisol mewn meysydd amgylcheddol, megis technoleg ac ynni glân, isadeiledd amgylcheddol, coedwigaeth a phethau eraill o'r fath.

Caiff y Polisi ei adolygu yn barhaus ac mae'n destun adolygiad strwythur ar hyn o bryd ac mae Ymgynghorwyr Buddsoddi'r Gronfa yn ystyried sut y gallant gynnwys risgiau newid hinsawdd o fewn y strategaeth ddiwygiedig a chyflawni'r hyn sydd angen ei wneud o ran dyletswydd i pensiynwyr.

Ar hyn o bryd, mae oddeutu 1.2% o'r gronfa wedi'i buddsoddi mewn tanwyddau ffosil, sydd yn elfen gymharol fychan o'r buddsoddiadau ar y cyfan. Nid yw hyn yn rhywbeth y gallwn ei reoli'n uniongyrchol gan nad yw o fewn ein cylch gwaith, ond byddwn yn parhau i ddylanwadu ar hynny drwy'r strwythur rheoli sydd ar waith.

Maent yn mynychu'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn lled-reolaidd, felly fe allwn fynd i'r afael â'r mater drwy'r broses honno.

Dyna'r sefyllfa gyfreithiol ond y cam cyntaf yw mynd i'r afael â'r ddyletswydd cynhyrhydd i gwrdd â'n rhwymedigaethau i pensiynwyr y presennol a'r dyfodol”.

#### **4 DYDDIADUR Y CADEIRYDD**

Roedd rhestr o ddigwyddiadau dinesig a fynychwyd gan y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd ar gyfer y cyfnod rhwng 6 Mehefin 2019 a 17 Awst 2019 wedi'i dosbarthu cyn y cyfarfod.

***PENDERFYNWYD*** derbyn y rhestr o ddigwyddiadau dinesig y bu i'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd eu mynychu.

#### **5 COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor Llawn a gynhaliwyd ar 2 Gorffennaf 2019.

Materion yn Codi:

Tudalen 8 (eitem 6 (i)) – Mynegodd y Cynghorydd Mabon ap Gwynfor ei siom nad oedd mwy o gymorth ar gael i Gyngorau Cymuned bychain.

Tudalen 9 – eitem 6 (ii) – Cwestiynodd y Cynghorydd Glenn Swinger y diweddariad a roddwyd ar gynnydd yr ail fand o Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif.

Eglurodd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts y sefyllfa a bod ymarfer cwmpasu yn mynd rhagddo ond bod rhaid ei gyflwyno i Bwyllgorau amrywiol cyn ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn.

Tudalen 10 – Rhybudd o Gynnig – Gofynnodd y Cynghorydd Graham Timms am y wybodaeth ddiweddaraf.

Cadarnhaodd Pennaeth y Gyfraith, AD a Gwasanaethau Democrataidd bod y grwpiau gwleidyddol wedi cytuno ar aelodaeth y Gweithgor. Roedd dyddiad posibl ar gyfer y cyfarfod cychwynol, sef 19 Medi 2019, ond byddai'n cysylltu â phob aelod o'r Grŵp cyn y dyddiad hwnnw i gadarnhau.

Mynegodd y Cynghorydd Brian Jones ei siom bod un o'r Aelodau a gyflwynodd y Rhybudd o Gynnig wedi gwrthod ei sedd ar y Gweithgor.

Tudalen 16 – (eitem 12) – Dywedodd Pennaeth y Gyfraith, AD a Gwasanaethau Democrataidd wrth y Cyngor Llawn nad oedd Cadeirydd nac ychwaith Is-Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ar gael i gyflwyno'r adroddiad, ac felly byddai'n cael ei ohirio tan gyfarfod y Cyngor Llawn ar 15 Hydref 2019.

Tudalen 17 (eitem 14) – Cododd y Cynghorydd Rhys Thomas y mater o Weithredu Model Darparu Amgen ar gyfer swyddogaethau a gweithgareddau amrywiol yn gysylltiedig â hamdden yn cael ei symud ar y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol o'r cyfarfod ym mis Medi i'r cyfarfod ar 15 Hydref.

Eglurodd Pennaeth y Gyfraith, AD a Gwasanaethau Democrataidd ei fod yn fater dilyniannu a bod rhaid cyflwyno'r eitem yng nghyfarfod y Cabinet ar 24 Medi ac yna yng nghyfarfod y Cyngor Llawn ym mis Hydref.

***PENDERFYNWYD yn amodol ar yr uchod, cadarnhau cofnodion y cyfarfod Cyngor Llawn a gynhaliwyd ar 2 Gorffennaf 2019 fel cofnod cywir a bod y Cadeirydd yn eu llofnodi.***

## **6 CYNLLUN AMDDIFFYN ARFORDIR DWYRAIN Y RHYL**

Cyflwynodd Aelod Arweiniol Gwastraff, Cludiant a'r Amgylchedd adroddiad Cynllun Amddiffyn Arfordir Dwyrain Y Rhyl (a ddosbarthwyd yn flaenorol) i hysbysu'r aelodau am gynllun amddiffyn arfordir arfaethedig yn Nwyrain Y Rhyl a fyddai'n darparu safon briodol o amddiffyniad llifogydd i oddeutu 1,650 eiddo.

Nodwyd bod y tebygolrwydd o lifogydd difrifol yn fwy aciwt yn Nwyrain y Rhyl nag unrhyw leoliad arall yn Sir Ddinbych. Dangosodd ymchwiliad i lifogydd 2013 y gallai eiddo ddiodeff llifogydd yn ystod digwyddiad 1 mewn 20 mlynedd.

Cynllun Amddiffyn Arfordir Dwyrain y Rhyl oedd y cynllun amddiffyn arfordir â'r flaenoriaeth uchaf ar gyfer y Cyngor. Roedd cost y prosiect wedi'i amcangyfrif yn £27.5 miliwn.

Roedd y cynllun i fod i gan ei ariannu yn defnyddio model Menter Benthycia Llywodraeth Leol. Y gyfradd grant ar gyfer gwaith amddiffyn yr arfordir oedd 75%, felly, byddai'r prosiect yn cael ei ariannu'n llwyr gan y Cyngor, gyda 75% o'r costau yn cael eu had-dalu gan Lywodraeth Cymru dros gyfnod o 25 mlynedd drwy'r Grant Cynnal Refeniw. Oherwydd maint y cynllun, mae'n debyg y byddai'n rhaid i'r Cyngor fenthycy y mwyafrif o'r arian, er bod £2m o arian cyffredinol wedi'i glustnodi ar gyfer y cynllun.

Ni fyddai Llywodraeth Cymru yn ystyried ceisiadau am fwy o grant lle'r oedd costau wedi cynyddu uwchlaw'r swm a gymeradwywyd gan y grant. Er mwyn cyflawni sicrwydd cost digonol ar gyfer cynllun Dwyrain y Rhyl, penderfynwyd caffael camau dylunio ac adeiladu'r cynllun gan ddefnyddio Fframwaith Caffael y Sector Cyhoeddus Scape. Ym mis Awst 2016 gwnaed cytundeb cyflawni gyda'r Partner Fframwaith, Balfour Beatty. O ganlyniad i'r cysylltiad cynnar hwn gan y contractwr, roedd hyder y gellid cyflawni'r cynllun hyd at ei gwblhau o fewn yr amcangyfrif cost cyfredol.

Roedd Fframwaith Scape yn cefnogi defnydd cadwyni cyflenwi lleol. Rheolwyd hyn trwy "Siarter Cadwyn Gyflenwi" a'i hasesu yn erbyn Dangosyddion Perfformiad Allweddol. Er enghraifft, dylai o leiaf 40% o wariant y prosiect fod o fewn radiws o 20 milltir a 75% o fewn radiws o 40 milltir. Roedd Balfour Beatty wedi ymgysylltu'n helaeth ag is-gontractwyr a chyflenwyr lleol, gan ddim ond edrych ymhellach i ffwrdd pan nad oedd adnoddau ar gael yn lleol neu pan nad oeddent yn gallu darparu gwerth am arian.

Roedd y cynllun wedi cael ei ystyried yn flaenorol a'i gefnogi gan y Tîm Gweithredol Corfforaethol, y Grŵp Buddsoddi Strategol a'r Cabinet ac fe gynhaliwyd sesiynau galw heibio cyhoeddus ym mis Hydref a mis Tachwedd 2018.

Y risg fwyaf sylweddol oedd gysylltiedig â'r prosiect oedd bod telerau benthyciad Llywodraeth Cymru yn arwain at faich refeniw hirdymor (25 mlynedd) i'r Cyngor.

Roedd y cynllun arfaethedig yn cynnwys gosod 128,000 tunnell o feini o flaen yr amddiffynfeydd môr presennol, yn ogystal ag amddiffynfa fôr newydd 600m o hyd ger y wal a'r promenâd. Byddai tri phwynt mynediad gwell at y traeth hefyd yn cael eu darparu. Cynigiwyd y byddai'r gwaith adeiladu yn dechrau ym mis Ebrill 2020 ac yn dod i ben ym mis Rhagfyr 2022.

Cafwyd trafodaeth fanwl a chodwyd y pwyntiau canlynol:

- Mynegwyd pryderon o ran hyd y benthyciad a'r cynnydd posibl i gyfraddau llog.

Cadarnhawyd y byddai'r gyfradd llog ar y benthyciad yn sefydlog am y cyfnod o 25 mlynedd.

- Codwyd y risg o'r prosiect yn mynd dros y gyllideb.  
Cadarnhawyd bod llawer iawn o waith wedi cael ei wneud gyda'r contractwr ers dechrau'r trafodaethau ar y prosiect er mwyn ceisio lleihau gorwariant ond ni fyddent byth yn gallu dileu'r risg ariannol. Byddai Bwrdd Prosiect yn cael ei sefydlu i oruchwylio'r cynllun a monitro gwariant. Ar y pwynt hwn, gofynnodd y Cyngorydd Joan Butterfield fod y Cyngorydd Barry Mellor yn cael bod yn aelod o'r Bwrdd Prosiect.
- Mynegodd yr Aelodau bryder ynghylch y dŵr a symudwyd ac fe gadarnhawyd na fyddai'r cynllun yn cynyddu'r risg o lifogydd mewn ardaloedd eraill ar hyd yr arfordir.
- Gofynnwyd a oedd amddiffynfeydd môr yn ofyniad statudol.  
Esboniodd y Peiriannydd Risg Llifogydd, o ran dyletswydd statudol y Cyngor mewn perthynas ag amddiffyn yr arfordir, roedd Cyngor Sir Ddinbych yn Awdurdod Amddiffyn yr Arfordir ac roedd ganddo ddyletswyddau dan Ddeddf Amddiffyn Y Glannau. Roedd y swyddogaeth statudol fel awdurdod amddiffyn yr arfordir ond nid oedd hyn o reidrwydd yn cynnwys diogelu eiddo. Fodd bynnag, cymerodd Cyngor Sir Ddinbych y cyfle i ddefnyddio argaeledd y cyllid ar gyfer y cynllun amddiffyn.
- Gofynnodd yr Aelodau a oedd gwaith am ddechrau ar ardaloedd llifogydd eraill o fewn Sir Ddinbych.  
Cadarnhawyd bod nifer o ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd a byddai hyn yn cael ei ddwyn at sylw'r Aelodau yn y dyfodol.
- Codwyd y defnydd o dwyni tywod fel amddiffynfeydd naturiol rhag llifogydd.  
Cadarnhawyd bod y broses o garthu tywod wedi cael ei hystyried fel proses arall ond nid oedd bob amser yr un mor llwyddiannus. Roedd y Rheolwr Risg Llifogydd yn aelod o Grŵp Arfordir Bae Lerpwl ac fe gytunodd i ddsbarthu cofnodion y Grŵp i bob aelod.
- TAN15 (Nodyn Cyngor Technegol - Datblygu a Pherygl o Lifogydd) – byddai cyfnod ymgynghori Llywodraeth Cymru yn dechrau ar ddiwedd mis Medi 2019 a byddai'r Rheolwr Risg Llifogydd yn sicrhau fod yr aelodau yn derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf.

Dywedodd yr Arweinydd, y Cyngorydd Hugh Evans, y byddai hyn yn flaenoriaeth i'r Cyngor. Mynegodd bryder pe bai'r cynllun yn mynd dros y gyllideb gan na fyddai Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r gwariant ychwanegol. Felly, gofynnodd am gynnwys argymhelliad ychwanegol sef, fel cyngor, ni fyddai yn derbyn na fyddai Llywodraeth Cymru yn darparu cymorth ariannol ychwanegol pe bai'r cynllun yn mynd dros y gyllideb.

Dywedodd yr Arweinydd hefyd y dylid ei gwneud yn glir bod y Cyngor yn deall y risg a'r ymrwymiad dros 25 o flynyddoedd.

Cynigodd yr Arweinydd fod yr argymhellion canlynol yn cael eu hychwanegu at yr adroddiad, eiliwyd hyn gan y Cyngorydd Gwyneth Kensler:

- (i) Bod y Cyngor yn cadarnhau ei fod yn deall y risgiau a'r ymrwymiad ariannol sydd ynghlwm wrth y prosiect, a
- (ii) Bod y Cyngor yn penderfynu cysylltu â Llywodraeth Cymru i ofyn am gyllid ychwanegol os bydd costau yn mynd tu hwnt i'r gyllideb.

Yn y fan hon, gofynnodd y Cynghorydd Joan Butterfield am bleidlais wedi'i chofnodi.

Dywedodd Pennaeth y Gyfraith, AD a'r Gwasanaethau Democraataidd y byddai'n rhaid i un rhan o chwech o'r Aelodau oedd bresennol gytuno i gael pleidlais wedi'i chofnodi. Bu i fwy nag un rhan o chwech o'r aelodau gytuno â'r bleidlais wedi'i chofnodi.

**Ar y pwynt hwn (11.25 a.m.) cafwyd egwyl o 25 munud.**

**Ailddechreuodd y cyfarfod am 11.50 a.m.**

Cafwyd y bleidlais wedi'i chofnodi, fel a ganlyn:

O blaid yr argymhellion – Y Cyngorwyr Mabon ap Gwynfor, Brian Blakeley, Joan Butterfield, Ellie Chard, Ann Davies, Gareth Davies, Meirick Lloyd Davies, Hugh Evans, Bobby Feeley, Tony Flynn, Rachel Flynn, Hugh Irving, Alan James, Brian Jones, Tina Jones, Gwyneth Kensler, Geraint Lloyd-Williams, Richard Mainon, Christine Marston, Melvyn Mile, Bob Murray, Paul Penlington, Arwel Roberts, Anton Sampson, Peter Scott, Glenn Swingler, Rhys Thomas, Julian Thompson-Hill, Graham Timms, David G. Williams, Eryl Williams, Huw Williams, a Mark Young.

Yn erbyn yr argymhellion - Neb

Ymatal – Neb

O blaid – 33

Ymatal – 0

Yn erbyn– 0

Felly:

**PENDERFYNWYD:**

- (i) *Bod y Cyngor yn cadarnhau ei fod wedi ystyried cynnwys yr Asesiad o Effaith ar Les (a atodwyd yn Atodiad 1);*
- (ii) *Bod y Cyngor yn cefnogi'r cais i symud y cynllun ymlaen at y cam adeiladu, gan ddefnyddio y model cyllido cymorth grant a nodwyd gan Lywodraeth Cymru;*
- (iii) *Bod y Cyngor yn dirprwyo awdurdod i Fwrdd Prosiect Amddiffyn yr Arfordir i gyflawni'r prosiect, cyn belled â nad yw'r costau terfynol yn uwch na £27.5m.  
Dylid dod a'r prosiect yn ôl at y Cyngor os bydd y gost darged derfynol yn fwy na £27.5m;*

- (iv) *Bod y Cyngor yn cadarnhau ei fod yn deall y risgiau a'r ymrwymiad ariannol sydd ynghlwm wrth y prosiect, a*
- (v) *Bod y Cyngor yn penderfynu cysylltu â Llywodraeth Cymru i ofyn am gyllid ychwanegol os bydd costau yn mynd tu hwnt i'r gyllideb.*

## **7 ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL**

Gan nad oedd y Cadeirydd nac ychwaith yr Is-Gadeirydd yn gallu mynychu cyfarfod y Cyngor Llawn, cytunwyd i ohirio Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol tan gyfarfod y Cyngor ar 15 Hydref 2019.

***PENDERFYNWYD*** bod Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn cael ei ohirio tan 15 Hydref 2019.

## **8 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CYNGOR SIR**

Cyflwynodd Pennaeth y Gyfraith, AD a Gwasanaethau Democrataidd Raglen Gwaith i'r Dyfodol y Cyngor ynghyd â Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol Briffio'r Cyngor (a ddosbarthwyd yn flaenorol).

Cadarnhawyd y byddai cyfarfod y Cyngor Arbennig yn cael ei gynnal ar 19 Medi 2019, er mwyn penodi Pennaeth Cyllid newydd.

15 Hydref, 2019 – Ychwanegu Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol wedi iddo gael ei ohirio yn y cyfarfod heddiw.

***PENDERFYNWYD***, yn amodol ar yr uchod, y dylid cymeradwyo a nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cyngor a Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol Briffio'r Cyngor.

**Daeth y cyfarfod i ben am 12.05 p.m.**